**Julie James AC/AM**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: MA-P-JJ/2557/19 (addendum)

John Griffiths AC/AM
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales

18 Medi 2019

Annwyl John,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Gorffennaf am yr ymatebion i adroddiad y Pwyllgor ar Hawliau Pleidleisio i Garcharorion.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am edrych ar y materion mewn cymaint o fanylder. Mae'r adroddiad, a'r rhesymau dros ei argymhellion, wedi ein helpu i lunio ein casgliadau polisi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r egwyddor y dylai carcharorion bleidleisio yn yr holl etholiadau datganoledig yng Nghymru. Yn fy ymateb i'r Pwyllgor, nodais yn glir y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio i gyflwyno deddfwriaeth yn ystod y Cynulliad hwn i alluogi carcharorion a phobl ifanc o Gymru sydd yn y ddalfa sydd wedi cael dedfryd o garchar am lai na phedair blynedd i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol.

Fel y nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor, mae materion cyfreithiol a gweinyddol sylweddol y mae angen mynd i'r afael â nhw, yn enwedig gyda Llywodraeth y DU a'i hasiantaethau. Nid ydym yn credu y bydd yn bosibl datrys y materion hyn i gynnwys darpariaeth ym Mil y Senedd ac Etholiadau (Cymru). Bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ar drywydd y cyfrwng deddfwriaethol priodol i gyflwyno darpariaeth cyn gynted â phosibl er mwyn galluogi carcharorion a phobl ifanc o Gymru sydd yn y ddalfa i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad yn unol â'r un telerau ag y bydd yn gymwys i etholiadau llywodraeth leol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit.

Yn gywir

**Julie James AC/AM**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government